# Cefnogi â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi â'r gwaith o ofalu am ddatblygiad holistaidd babanod a phlant ifanc. Mae'n cynnwys arsylwi babanod a phlant ifanc, a chyfathrebu'n effeithiol i ddeall ac ymateb i'w dewisiadau a'u hanghenion. Mae hefyd yn cynnwys darparu ar gyfer eu gofal personol ac amrywiaeth o brofiadau chwarae a fydd yn cefnogi eu datblygiad holistaidd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd gan blant ifanc a theuluoedd cyn mynd ati i'w harsylwi'n ffurfiol
2. arsylwi datblygiad corfforol babanod neu blant ifanc
3. arsylwi sut mae babanod neu blant ifanc yn cyfathrebu
4. arsylwi sut mae babanod neu blant ifanc yn mynegi eu teimladau
5. nodi sut mae babanod neu blant ifanc yn chwarae, a beth maen nhw'n ei fwynhau fwyaf
6. rhannu arsylwadau ag eraill i gynorthwyo â'r gwaith o gynllunio datblygiad babanod neu blant ifanc
7. defnyddio profiadau ac arferion i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogi datblygiad holistaidd
8. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd, dilyn dewisiadau ac anghenion babanod neu blant ifanc ar gyfer gorchwylion bwydo ac anghenion dietegol
9. paratoi, storio a gweini bwyd a diod, gan ystyried unrhyw anghenion dietegol penodol
10. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd, cefnogi'r broses ddiddyfnu a'u hannog i fwydo eu hunain yn seiliedig ar barodrwydd babanod neu blant ifanc
11. ymateb i arwyddion o salwch mewn babanod neu blant ifanc
12. cyfrannu at greu awyrgylch cyfforddus, digyffro a meithringar i fabanod neu blant ifanc yn ystod gorchwylion gofal personol
13. rhoi gofal personol diogel a hylan
14. dilyn asesiadau risg i gynnal amgylcheddau saff a diogel
15. cysuro a thawelu meddwl babanod neu blant ifanc pan fyddant yn ofidus
16. cyfrannu at gynllunio profiadau chwarae cynhwysol sy'n addas yn ddatblygiadol ac sy'n cefnogi gwahanol feysydd dysgu
17. annog profiadau sy'n adlewyrchu diddordebau a chefndiroedd diwylliannol babanod neu blant ifanc
18. sicrhau bod mannau, profiadau a rhyngweithiadau chwarae yn cynnig cydbwysedd rhwng pethau cyfarwydd a phethau heriol
19. ymgysylltu â babanod neu blant ifanc wrth chwarae
20. cyfathrebu â babanod neu blant ifanc mewn ffordd sy'n gweddu i'w hanghenion
21. defnyddio straeon, caneuon a rhigymau i gefnogi datblygiad iaith
22. ymateb i arwyddion cyfathrebu babanod neu blant ifanc
23. rhoi adborth i deuluoedd am brofiadau a chynnydd babanod neu blant ifanc

24. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi â’r gwaith o ofalu am fabanod neu blant ifanc
25. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi â’r gwaith o ofalu am fabanod neu blant ifanc, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y newidiadau y gall babanod a phlant ifanc fynd drwyddynt
2. datblygiad o adeg cyn geni hyd at 21 oed
3. ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy'n gallu effeithio ar ddatblygiad babanod a phlant ifanc
4. sut gall niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol effeithio ar anghenion babanod a phlant ifanc o ran gofal
5. dylanwad diwylliant a chefndir ar ofal babanod a phlant ifanc
6. sut mae datblygu perthynas gyson, ofalgar a meithringar gyda babanod a phlant ifanc
7. pwrpas a gwerth arsylwi babanod a phlant ifanc
8. gweithdrefnau'r gweithle ar gyfer arsylwi, asesu a chofnodi babanod a phlant ifanc
9. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gynorthwyo â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc
10. pwysigrwydd arferion o ran darparu diogelwch a chefnogi datblygiad babanod a phlant ifanc
11. eich rôl o ran diddyfnu a gosod gorchwylion hunan-fwydo babanod a phlant ifanc
12. paratoi, storio a thrin bwyd a diod yn ddiogel ar gyfer babanod a phlant ifanc
13. arwyddion a symptomau salwch cyffredin yn ystod plentyndod ac ymatebion addas
14. pwysigrwydd amgylcheddau meithringar a digyffro wrth gefnogi llesiant babanod a phlant ifanc
15. arferion da ar gyfer gofal personol babanod a phlant ifanc
16. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gynorthwyo â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc
17. pwysigrwydd diogelu, asesu risg a chynnal amgylcheddau diogel i fabanod a phlant ifanc
18. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynorthwyo â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc
19. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol a rhoi cysur i fabanod a phlant ifanc sy'n wynebu pryder neu ofid
20. sut mae chwarae yn cefnogi gwahanol feysydd datblygu

21. camau chwarae ar gyfer babanod a phlant ifanc
22. arwyddocâd chwarae sy'n cael ei arwain gan blant
23. effaith rhyngweithiadau cadarnhaol ar hyder, dysgu a llesiant
24. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc
27. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth gefnogi â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
28. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gynorthwyo â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Cefnogi â'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD235 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofalu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |